

Eitem: 16

Teitl: Adolygwyd a diwygiwyd Polisi Gwrth-dwyll Llais a Pholisi Safonau Ymddygiad Busnes Llais

Gweithredu / Action required	Ar gyfer ystyried a chymeradwyo
Amseru / Timing	Arferol
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r Polisi Gwrth-dwyll a adolygwyd ac a ddiweddarwyd a Pholisi Safonau Ymddygiad Busnes Llais, yn dilyn ystyriaeth a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2026.
Risg / Risk	Gallai methu â chynnal polisïau cyfredol arwain at Llais yn gweithredu gyda threfniadau sydd wedi dyddio. Gallai hyn wanhau rheolaethau sefydliadol, lleihau cydymffurfiaeth â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, cyfyngu ar ymwybyddiaeth staff, a lleihau'r sicrwydd a ddarperir i'r Swyddog Cyfrifyddu, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r sefydliad. Gallai hyn hefyd arwain at golled ariannol, niwed i enw da a llai o hyder yn stiwardiaeth sefydliadol Llais a'i ddull o reoli arian cyhoeddus. Mae'r polisïau hyn yn elfennau pwysig o fframwaith llywodraethu, rheoli risg a sicrwydd cyffredinol Llais, ac maent yn helpu i gynnal hyder y cyhoedd yn stiwardiaeth Llais o adnoddau cyhoeddus.
Cyllid / Finance	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio'n uniongyrchol o'r diweddariadau i'r polisïau.
Amcan y Cynllun Strategol / Cynllun Blynnyddol / Strategic Plan / Annual Plan Objective	Mae'r polisïau hyn, sydd wedi'u hadolygu a'u diwygio, yn ymwneud â maes blaenoriaeth 5 y Cynllun Blynnyddol, sef tyfu, datblygu a gwella fel sefydliad.

Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran tegwch, amrywiaeth na chynhwysiant yn deillio o'r diwygiadau i'r polisïau. Mae'r polisïau'n gymwys i'r holl weithwyr, aelodau'r Bwrdd, gwirfoddolwyr ac eraill sy'n gweithredu ar ran Llais yn gyfartal, ac maent yn cefnogi dulliau gweithredu teg, tryloyw a chyson.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒ Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Prif Weithredwr
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Cymeradwyodd y Bwrdd Bolisi Gwrth-dwyll ym mis Chwefror 2023, cyn i Llais ddechrau gweithredu. Cymeradwywyd y Polisi Safonau Ymddygiad Busnes gwreiddiol gan y Bwrdd ar 27 Chwefror 2023, a chadarnhawyd y ddau bolisi ym mis Ebrill 2023, unwaith yr oedd Llais yn gwbl weithredol.
Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting	Richard Bevan, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.
Dyddiad / Date	7 Hydref 2026
Cefndir / Background - Manylion / Detail	
Polisi Gwrth-dwyll a Adolygwyd: Cymeradwywyd y polisi gwrth-dwyll presennol gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2023. Cynhaliwyd adolygiad wedi'i amserlennu i sicrhau bod y polisi'n parhau'n gyfredol, yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol ac arferion gorau, ac yn cyd-fynd â disgwyliadau a safonau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwrth-dwyll. Mae'r polisi diwygiedig wedi cael ei adolygu gan wasanaeth gwrth-dwyll Gwasanaethau a Rennir y GIG hefyd er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n parhau'n gymesur ac yn briodol ar gyfer Llais. Mae'r polisi diwygiedig yn parhau i gefnogi fframwaith llywodraethu'r sefydliad ac yn darparu trefniadau wedi'u diweddarau i atal, canfod ac ymateb i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Mae'n atgyfnerthu ymrwymiad Llais i stiwardiaeth arian cyhoeddus ac yn cefnogi cydymffurfiaeth â disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwrth-dwyll.	

Mae'n ceisio hyrwyddo diwylliant o ymwybyddiaeth o dwyll ledled Llais. O ganlyniad, mae hefyd yn gysylltiedig â nifer o bolisiâu eraill Llais. Un o'r rhain yw'r Polisi Safonau Ymddygiad Busnes.

Mae'r adolygiad wedi cadarnhau bod y polisi'n parhau i gyd-fynd â Safonau Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru a'r trefniadau a ddarperir drwy Wasanaeth Gwrth-dwyll GIG Cymru.

Nid yw'r polisi diwygiedig yn newid dull gweithredu sylfaenol Llais o fod â dim goddefgarwch tuag at dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, ond mae'n ceisio cryfhau ac egluro sawl maes, gan gynnwys:

- Rhoddir mwy o bwyslais ar asesu risg twyll sefydliadol a'r integreiddio arfaethedig â'r fframwaith rheoli risg corfforaethol. Mae proffil risg twyll wedi'i ddatblygu, a hwnnw wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'i integreiddio i rwydwaith cofrestri risg y sefydliad. Derbyniwyd cyngor ar y gwaith hwn gan Wasanaeth Gwrth-dwyll Gwasanaethau a Rennir y GIG.
- Ychwanegwyd trefniadau cliriach ynghylch atebolrwydd ac ymwybyddiaeth ar gyfer y Prif Weithredwr yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, rheolwyr, staff, yn ogystal â rôl arweiniol y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd mewn perthynas â gwrth-dwyll. Cytunwyd yn ddiweddar ar gynllun gweithredol gwrth-dwyll gan y Tîm Gweithredol, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer y gweithgarwch hwn.
- Tynnwyd sylw at drefniadau cryfhau codi ymwybyddiaeth o wrth-dwyll, dysgu a rhoi gwybod am achosion. Cynhelir arolwg gwrth-dwyll a darperir sesiwn codi ymwybyddiaeth ychwanegol ledled Llais, cyn i'r Arbenigwr Gwrth-dwyll gyflwyno adroddiad blynyddol i gyfarfod mis Mawrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- Ychwanegwyd eglurder ynghylch rôl y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, yn ogystal â'r trefniadau cynllunio blynyddol, sicrwydd ac adrodd.

Mae'r Tîm Gweithredol wedi ystyried yr adolygiad ac wedi cefnogi'r diweddariad. Mae'r newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad wedi'u crynhoi uchod ac wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Derbyniodd y Pwyllgor fersiwn o'r polisi a oedd wedi'i adolygu a'i ddiwygio'n llawn, gyda'r newidiadau wedi'u tracio, a chymeradwyodd y diwygiadau.

Adolygu'r Polisi Safonau Ymddygiad Busnes: Cymeradwywyd Polisi Safonau Ymddygiad gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2023 a'i gadarnhau ym mis Ebrill 2023, pan ddaeth Llais yn gwbl weithredol. Adolygwyd y polisi presennol i sicrhau ei fod yn

parhau'n gyfredol, yn adlewyrchu datblygiadau yn nhrefniadau'r sefydliad ac yn ymgorffori'r gwersi a nodwyd drwy brosesau llywodraethu ac archwilio. Mae'r polisi hefyd yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran safonau ymddygiad, llywodraethu da, bod yn agored ac atebolrwydd o fewn cyrff cyhoeddus.

Rhoddodd yr adolygiad gyfle hefyd i gryfhau'r cysylltiadau â fframwaith ymddygiad Llais a threfniadau llywodraethu ehangach y sefydliad ac, o ganlyniad, ail-eiriwyd enw'r polisi er mwyn osgoi dryswch rhwng y polisi a fframwaith ymddygiad Llais.

Mae'r polisi'n pennu'r safonau ymddygiad busnes a ddisgwylir gan staff, gwirfoddolwyr ac aelodau anweithredol, ac mae'n nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli datganiadau o fuddiant, rhoddion, lletygarwch, honoraria a nawdd. Mae'n seiliedig ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) ac egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae hefyd yn cysylltu â gwaith y sefydliad i ddatblygu diwylliant sy'n ymwbyddol o wrth-dwyll.

Arweiniodd yr adolygiad at bolisi diwygiedig a chyfunol sy'n cysylltu â pholisïau eraill o fewn fframwaith polisïau Llais.

Mae'r newidiadau'n cynnwys y canlynol:

- Egluro cyfrifoldebau unigolion ac arweinwyr mewn perthynas â safonau ymddygiad busnes, datganiadau o fuddiant a'r prosesau cysylltiedig, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau diweddar yn strwythur y sefydliad a'i drefniadau arwain.
- Cryfhawyd y trefniadau ar gyfer cynnal a chyflwyno adroddiadau ar gofrestri buddiannau a rhoddion, lletygarwch, honoraria a nawdd. Mae amrywiaeth o waith wedi'i wneud ar y rhain dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys gwaith diweddar drwy'r Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol a'r adolygiad o Reolau Sefydlog Llais. Bellach, mae trefniadau cynhwysfawr ar waith ar draws y rhanbarthau, y gwasanaethau cenedlaethol a'r Bwrdd. Bydd yr adroddiadau arferol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau fel arfer, gyda'r cynnig y bydd cofnod datganiadau o fuddiant aelodau'r Bwrdd yn cael ei adolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac yna gan y Bwrdd.
- Diweddarwyd y canllawiau sy'n ymwneud â rhoddion, lletygarwch, nawdd a honoraria.

- Cryfhawyd y ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth mewn perthynas â gweithgareddau caffael, cyflogaeth eilaidd, perthnasoedd personol a gwrthdrawiad buddiannau posibl.
- Atgyfnerthwyd y disgwyliadau mewn perthynas â thryloywder, atebolrwydd a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol a safonau llywodraethu'r sector cyhoeddus.
- Cryfhawyd y cysylltiadau rhwng safonau ymddygiad busnes, trefniadau gwrth-dwyll, prosesau codi pryderon a fframwaith llywodraethu cyffredinol y sefydliad.

Bydd cydymffurfiaeth â'r polisi'n parhau i gael ei monitro drwy gynnal ac adolygu cyfnodol o gofrestru buddiannau a rhoddion, lletygarwch, honoraria a nawdd. Darperir sicrwydd drwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, fel rhan o drefniadau llywodraethu a gwrth-dwyll ehangach y sefydliad.

Mae'r Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol a'r Tîm Gweithredol wedi adolygu'r polisi ac wedi argymhell ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Derbyniodd y Pwyllgor fersiwn lawn o'r polisi gyda'r newidiadau wedi'u tracio, cymeradwyodd y newidiadau ac argymhellodd fod y Bwrdd yn cymeradwyo'r polisi.

Camau Nesaf: Yn dilyn cael eu cymeradwyo, bydd y polisiâu a adolygwyd yn cael eu lansio'n ffurfiol ar draws y sefydliad, a byddant ar gael drwy ein mewnwydd/SharePoint a bydd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, fel yr amlinellwyd uchod, yn cael eu cynnal. Bydd fersiynau hawdd eu darllen yn cael eu datblygu hefyd, a defnyddir ffeithluniau lle bo modd i godi ymwybyddiaeth o'r prif negeseuon.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y polisiâu wedi'u diweddarau, gan gydnabod mai diweddariadau i bolisiâu presennol oedd y rhain, ac ar yr amod y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i ailwampio'r polisiâu'n llawn ac, lle bo modd, symleiddio'r fformatau.

Argymhelliad / Recommendation

Gofynnir i'r Bwrdd, yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, wneud y canlynol:

- Cymeradwyo'r newidiadau i'r Polisi Gwrth-dwyll diwygiedig.
- Cymeradwyo'r newidiadau i'r Polisi Safonau Ymddygiad Busnes.